
Polisi Caffael

Cynnwys

1	Egwyddorion Arweiniol	1
2	Prosesau caffael	3
3	Cyflenwyr unigol	5
4	Caffael o £25k neu lai	5
5	Caffael dros £25k.....	6
6	Lefelau awdurdodi	7
7	Adolygu a chyhoeddi	8
	Dogfen Dendro	9
	Ffurflen sgorio penderfyniad tendro	11
	Crynodeb ffurflen sgorio penderfyniad tendro.....	12
	Dogfennau tendro a ffurflenni sgorio penderfyniadau enghreifftiol	13
	Teclyn asesu perthnasedd caffael i gydraddoldeb a'r Gymraeg.....	24

1 Egwyddorion Arweiniol

Dylai pob caffael fod yn destun cystadleuaeth

- 1.1 Mae proses gystadleuol yn darparu'r cyfle gorau i gaffael nwyddau neu wasanaethau gan gael gwerth am arian. Bydd pob caffael goruwch £5k yn golygu cystadleuaeth fel y nodir mewn man arall yn y polisi hwn. Efallai y bydd eithriadau achlysurol ond dilys i'r egwyddor hon, yn codi o natur y gofyniad; mewn amgylchiadau o'r fath, mae angen cymeradwyaeth yr Ombwdsmon (neu, yn eu habsenoldeb y Prif Swyddog Gweithredu), fel Swyddog Cyfrifo, yn ofynnol.

Dylid cynnal pob caffael ar sail gwerth am arian

- 1.2 Mae gwerth am arian yn cynnwys costau oes gyfan, ansawdd ac addasrwydd i'r pwrpas. Er mai cost yw'r brif ystyriaeth, dylid gwerthuso ffactorau priodol eraill fel rhan o'r broses (e.e. effaith amgylcheddol, safonau lefel gwasanaeth, cost newid cyflenwyr, goblygiadau o ran diogelwch gwybodaeth).

Dylai pob caffael ystyried materion cynaliadwyedd

- 1.3 Dylid rhoi sylw i faterion cynaliadwyedd ar gamau priodol yn y broses gaffael (fel arfer camau'r fanyleb a gwerthuso). Rhaid ystyried cost a fforddiadwyedd. Mewn rhai achosion, yn enwedig pan fo materion amgylcheddol yn berthnasol, gall caffael cynaliadwy ostwng costau oes gyfan a gwella ansawdd drwy ailgylchu neu ostwng costau gwaredu.

Dylai pob caffael fod yn deg, yn agored ac yn dryloyw

- 1.4 Pan fydd gwerth y tendr yn fwy na throthwyon caffael perthnasol y Deyrnas Unedig, rhaid ei hysbysebu ar wefan 'Find a Tend Service' (FTS). Mae hyn wedi disodli rheolau caffael blaenorol yr Undeb Ewropeaidd nad ydynt bellach yn berthnasol ar ôl Brexit. Sylwch fodd bynnag fod y trothwyon caffael yn berthnasol i gyfanswm, yn hytrach na gwerth blynyddol, contractau.
- 1.5 Dylid defnyddio'r egwyddor o beidio â ffafrio na rhoi unrhyw gyflenwr posibl dan anfantais. Dylai pob proses gael ei gweld yn un a gynhelir yn deg. Bydd

caffael a reolir yn dda, gyda gofyniad wedi'i ddiffinio'n dda o'r dechrau, yn helpu i sicrhau canlyniad llwyddiannus. Dylai nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu ceisio gael eu diffinio mor fanwl â phosibl; mae methiant caffael fel arfer yn arwydd o ofyniad sydd wedi'i ddiffinio'n wael.

- 1.6 Lle gwneir penderfyniad i geisio'r cynnig gorau o wasanaeth / cyflenwi am swm a bennir gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (PSOW), bydd y fanyleb yn tynnu sylw at isafswm y gofyniad a'r a meysydd eang o ran gwerth ychwanegol y gellir eu hystyried. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n bwysig i PSOW fod yn fodlon y bydd cystadleuaeth ddigonol i sicrhau cynigion da a chystadleuol.

Annog cyflenwyr lleol llai

- 1.7 Dylid ystyried defnyddio cwmnïau lleol a busnesau bach os gallant ddarparu gwasanaeth priodol am gost gystadleuol.

Cydraddoldeb a'r Gymraeg

- 1.8 O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i PSOW ar bob cam o'r broses caffael rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.
- 1.9 O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae PSOW yn rhwym wrth Safonau'r Gymraeg. Yn unol â'r Safonau, mae PSOW yn hyrwyddo a chefnogi defnydd o'r Gymraeg yn ystod y broses caffael.
- 1.10 Rhaid i holl ddarparwyr fod yn ymwybodol o ddyletswyddau ac ymrwymïadau PSOW mewn perthynas â'r cydraddoldeb a'r Gymraeg, a chefnogi PSOW i'w cyflawni.

2 Prosesau caffael

Defnyddio asiantaethau allanol

- 2.1 Oherwydd cyfyngiadau yn Neddf PSOW, caiff yr Ombwdsmon ei atal rhag ymuno mewn unrhyw gytundeb gwasanaeth gyda chyrrff dan eu hawdurdodaeth. Os digwyddir i asiantaeth allanol gael ei defnyddio mae'n hanfodol bod y gwerth llawn yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn cynrychioli gwerth am arian.

Achos busnes ac awdurdodaeth

- 2.2 Os yw'r amcangyfrif o gyfanswm cost y contract yn uwch na £25k, rhaid paratoi achos busnes yn cynnwys manyleb amlinellol ar gyfer y gwasanaeth gofynnol i gyfiawnhau gweithgaredd a gwariant caffael. Rhaid i'r ffactorau llwyddiant hanfodol fod yn GAMPUS: Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Synhwyrol ac Amserol. Dylid sicrhau bod defnyddwyr y nwyddau neu'r gwasanaethau yn ymwneud â gosod y fanyleb gofynion. Yna rhaid cynnal trafodaeth gyda'r COODOI a/neu'r FA ynghylch y gyllideb ac amcangyfrif o werth y contract. Gall awdurdod i symud ymlaen ar gyfer caffael is na £25k gael ei roi gan y llofnodwr neu lofnodwyr awdurdodedig perthnasol fel a ddiffinnir yn adran 21 Polisiâu Ariannol y PSOW. Dim ond y COODOI neu'r Ombwdsmon (neu staff awdurdod dirprwyedig i weithredu ar y lefel honno oherwydd absenoldeb) a gaiff awdurdodi caffael ar gyfer gwasanaethau dros £25k.

Cynllun gweithredu

- 2.3 Gan ddibynnu ar faint y caffael a'r amcangyfrif o'r gyllideb a ganiateir (gweler adrannau 3,4 a 5), dylid paratoi cynllun i sicrhau y caiff pob tasg ac elfennau i'w cyflenwi eu nodi'n ddigon manwl. Dylid diffinio'n glir o'r dechrau y dull gweithredu o ran dethol a gwerthuso cyflenwyr.

Telerau ac amodau

- 2.4 Dylid ystyried a ddylid defnyddio telerau ac amodau safonol ar gyfer unrhyw drefniant cytundebol. Os oes ansicrwydd ynghylch y dull gorau i'w fabwysiadu, dylid cael cyngor gan Gwerthwch i Gymru.

Prosesau gwerthuso

- 2.5 Dylai prosesau gwerthuso clir gael eu cynnwys yn y dogfennau a anfonir at ddarpar gyflenwyr.

Cydraddoldeb a'r Gymraeg

- 2.6 Caiff pob caffael ei hasesu o ran pa mor berthnasol ydy i gydraddoldeb a'r Gymraeg (gweler Atodiad D).
- 2.7 Os mae'r gaffael wedi ei hadnabod fel un perthnasol i gydraddoldeb neu'r Gymraeg, gellir gosod gofynion hanfodol neu ddymunol ychwanegol ar gyfer cyflenwyr.

Cyfweliadau Gwerthuso

- 2.8 Efallai y bydd yn briodol cynnal cyfweliadau gwerthuso gyda chyflenwyr posibl.

Hysbysu am ddyfarnu contract

- 2.9 Dylid hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus ac aflwyddiannus yn ysgrifenedig. Dylid cynnig cyfle i ymgeiswyr aflwyddiannus dderbyn adborth, gan y gall adborth gynorthwyo cyflenwyr i wella'n perfformiad cystadleuol. Gall hefyd gynorthwyo i ganfod ffyrdd o wella'r broses ar gyfer y tro nesaf, ac efallai wella cyfathrebu.

Cofrestr Contractau a thrylwyrdd

- 2.10 Yn dilyn y penderfyniad priodol i benodi, mae manylion y contract a chopi o'r contract wedi'i lofnodi i'w cofnodi ar CARL (*Contract, Attachment and Record Library*), a gaiff ei ddefnyddio i ddiben Cofrestr Contractau.

Prosesau rheoli contractau parhaus

- 2.11 Dylai'r trefniadau rheoli contract gael eu hymgorffori yn y contract, gan ddibynnu ar sut fath o gontract ydyw.

- 2.12 Pan gyfyd problemau, dylid ymdrin â hwy'n brydlon - mae hyn yn galw am sianeli cyfathrebu da, gyda'r nod o gyflawni canlyniadau sy'n golygu ennill bob tro.
- 2.13 Dylid monitro perfformiad cyflenwyr yn rheolaidd yn erbyn lefelau gwasanaeth a gytunwyd. Y nod ddylai fod i wella perfformiad neu gynyddu gwerth yn barhaus.

3 Cyflenwyr unigol

3.1 Efallai y bydd angen defnyddio un cyflenwr. Gallai hyn fod oherwydd bod:

- y gofynion yn benodol; neu
- bod y cyflenwr eisoes wedi gwneud gwaith tebyg; neu
- y bydd y cyflenwi yn ychwanegol at drefniant cytundebol sydd eisoes yn bodoli.

3.2 Mewn amgylchiadau o'r fath mae cymeradwyaeth benodol yr Ombwdsmon neu'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Ymchwiliadau yn ofynnol ar gyfer caffael goruwch £25k.

4 Caffael o £25k neu lai

4.1 Nid oes angen unrhyw broses dendro ffurfiol ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau am lai na £25k. Fodd bynnag, ceidw'r Ombwdsmon yr hawl i gynnal proses dendro os ystyrir fod hynny'n briodol.

4.2 Rhaid i'r ffactorau a nodir yn adran 1 y polisi hwn gael eu hystyried a rhaid ceisio gwerth gorau bob amser wrth brynu pob nwyddau a gwasanaethau.

4.3 Ar gyfer caffael rhwng £5k a £25k dylid ceisio 3 dyfynbris ar wahân ar gyfer y nwyddau/gwasanaethau gofynnol oni fo amodau adran 3 cyflenwr unigol perthnasol.

4.4 Rhaid i bob caffael am nwyddau/gwasanaethau dros £20k gael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg drwy'r eitem agenda safonol 'eitemau i adrodd arnynt' a'r ffurflen.

5 Caffael dros £25k

- 5.1 Rhaid dilyn proses dendro wedi'i dogfennu ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau dros £25k, oni fod adran 3 'Cyflenwyr Unigol' yn berthnasol.
- 5.2 Penderfynir ar y tendr llwyddiannus ar sail gwerth gorau ac nid o angenrheidrwydd y pris isaf. Rhaid i'r meini prawf a ddefnyddir wrth werthuso, ynghyd ag unrhyw bwysoli, gael eu cynnwys yn y dogfennau tendro.
- 5.3 Dylid gwahodd isafswm o dri sefydliad i dendro, neu gall y broses dendro fod yn un agored drwy ei chyhoeddi ar Gwerthwch i Gymru ac ar wefan PSOW. Mewn amgylchiadau eithriadol gallai fod angen hysbysebu mewn cyfryngau rhanbarthol / cenedlaethol. Cyhoeddir gwahoddiad i dendro yn ddwyieithog.
- 5.4 Rhaid i'r 'Ddogfen Dendro' fod ar ei ffurf derfynol (gweler atodiad A ar gyfer cynnwys angenrheidiol dogfen dendro) cyn cyhoeddi'r tendr.
- 5.5 Dylid hysbysu'r rhai sy'n tendro fod rhaid iddynt gyflwyno ceisiadau trwy 'flwch post' ar-lein Gwerthwch i Gymru.
- 5.6 Mae 'blwch post' ar-lein Gwerthwch i Gymru yn caniatáu i swyddog sydd wedi ei awdurdodi agor a gweld ceisiadau wedi'r dyddiad cau.
- 5.7 Rhaid llenwi'r ffurflen penderfyniad tendro (gweler atodiad B).
- 5.8 Dylai'r asesiad cychwynnol o'r ceisiadau tendro a gyflwynwyd fod yn seiliedig ar allu'r ymgeiswyr i ddangos eu bod yn meddu ar y canlynol;
 - y sefydlogrwydd ariannol i gyflawni'r contract yr ymgeisir amdano
 - polisiau cydraddoldeb boddhaol o ran y gwasanaethau sydd i'w darparu a gallu i fodloni unrhyw ofynion ychwanegol o ran cydraddoldeb a'r Gymraeg a'u gosodwyd
 - bod ag enw da iddynt
- 5.9 Rhaid i'r penderfyniad i benodi darparwr gwasanaeth (ar gyfer nwyddau neu wasanaethau dros £25k yn dilyn proses dendro ffurfiol) gael ei awdurdodi gan un ai'r Ombwdsmon neu'r Prif Swyddog Gweithredu / Cyfarwyddwr Gwella.

- 5.10 Y cyfnod arferol i'w gynnig yw contract o dair blynedd, gydag estyniad posibl o ddwy flynedd yn amodol ar gytundeb y ddau barti. Fodd bynnag, gellir cynnig telerau contract eraill lle bo'n briodol.
- 5.11 Os na fydd unrhyw dendr wedi'i gwblhau yn cael ei ddychwelyd, neu os na dderbynnir unrhyw dendr derbyniol, rhaid i'r broses dendro ddechrau eto.
- 5.12 Rhaid i holl ddogfennau llwyddiannus y broses dendro gael eu cadw yn electronig am chwe blynedd o ddyddiad dyfarnu'r contract. Rhaid i holl ddogfennau tendro aflwyddiannus gael eu cadw am ddwy flynedd yn dilyn dyddiad y penderfyniad tendro.
- 5.13 Gan fod yn rhaid i bob caffael am nwyddau/gwasanaethau dros £20k gael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg drwy'r eitem agenda safonol 'eitemau i adrodd arnynt' a'r ffurflen, rhaid hefyd i bob caffael uwch na £25k gael ei adrodd i'r pwyllgor.
- 5.14 Oherwydd gofynion caffael cyhoeddus yr DU, dylid ceisio cyngor cyfreithiol wrth ystyried contractau nwyddau neu wasanaethau â chyfanswm eu gwerth yn uwch na £213,477, gan gynnwys TAW (h.y. gwerth blynyddol wedi'i luosi ag uchafswm cyfnod y contract).

6 Lefelau awdurdodi

- 6.1 Nodir lefelau awdurdodi yn Adran 21 Polisiâu Ariannol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- 6.2 Nodir yn Atodiadau B a C Polisiâu Ariannol PSOW y rhestr o staff presennol PSOW a awdurdodwyd i lofnodi ac ar ba lefel, ynghyd ag awdurdod yr Ombwdsmon iddynt wneud hynny.
- 6.3 Er bod polisiâu ariannol PSOW yn ddogfen gyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg o dwyll i'r eithaf, nid yw'r atodiadau i Bolisiâu Ariannol PSOW i'w cyhoeddi'n allanol.

7 Adolygu a chyhoeddi

- 7.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu pob dwy flynedd a'i gyhoeddi'n fewnol ac yn allanol.
- 7.2 Gellir cyfeirio unrhyw ymholiadau am y polisi hwn at rheolipolisi@ombwdsmon.cymru

Dogfen Dendro

Gwahoddiad i dendro templed o restr cynnwys:

Tabl Cynnwys

RHAN 1 – Gweithdrefnau Tendro

Adran I

Cyflwyniad i PSOW

Adran II

Golwg gyffredinol ar y gwasanaeth angenrheidiol a phrif delerau'r contract

Hyd y contract

Lleoliad

Cyfrinachedd

Prisio

Adran III

Cyfarwyddiadau i'r Rhai sy'n Tendro

Adran IV

Y broses dendro

Telerau ac amodau ceisio am dendr

Cyfrinachedd

Ymwadiad Cyfreithiol

Defnyddio Gwybodaeth

Adran V

Gwerthuso a Meini Prawf Cymhwyso

RHAN 2 – Gofyniad Penodol

Adran VI
Manyleb

Adran VII
Ystyriaethau cyllidebol

RHAN 3 – Ffurflen ceisio am dendr

Ffurflen sgorio penderfyniad tendro

Enw'r ymarfer tendro:

Enw'r Cwmni:

Category	Pwysoliad x	Sgôr					Cyfanswm
Sefydlogrwydd Ariannol		1	2	3	4	5	
Polisiâu cydraddoldeb		1	2	3	4	5	
Gofynion cydraddoldeb a'r Gymraeg ychwanegol (os yn perthnasol)		1	2	3	4	5	
Enw da / Delwedd y Cwmni		1	2	3	4	5	
Sail Cwsmeriaid / Geirdaon		1	2	3	4	5	
Arbenigedd		1	2	3	4	5	
Adnoddau		1	2	3	4	5	
Cyswllt Cwsmeriaid		1	2	3	4	5	
Proses		1	2	3	4	5	
Arloesi		1	2	3	4	5	
Cost a Gwerth		1	2	3	4	5	

Yr uchod yw'r sgorau y cytunwyd arnynt gan y panel adolygu tendrau sydd wedi llofnodi isod.

Llofnod

Dyddiad

Llofnod

Dyddiad

Llofnod

Dyddiad

-

Mae angen 2 o lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer awdurdod dros £500 - £25k (a21 Polisiâu Ariannol PSOW)

3 o lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer penderfyniadau ffurfiol ar dendrau dros £25k

<Ychwanegwch / Dilëwch / Addaswch y categorïau fel y bo angen ar gyfer tendro perthnasol

Crynodeb ffurflen sgorio penderfyniad tendro

Enw'r cwmni									
Sefydlogrwydd Ariannol									
Polisiâu cydraddoldeb									
Gofynion cydraddoldeb a'r Gymraeg ychwanegol (os yn perthnasol)									
Enw da / Delwedd y Cwmni									
Sail Cwsmeriaid / Geirdaon									
Arbenigedd									
Adnoddau									
Cyswllt Cwsmeriaid									
Proses									
Arloesi									
Cost a Gwerth									
CYFANSWM									
SAFLE									

Yr uchod yw'r sgorau y cytunwyd arnynt gan y panel adolygu tendrau sydd wedi llofnodi isod. O ganlyniad, penderfyniad y panel yw apwyntio **XXXXXXXXXXXX** fel ymgeisydd tendro llwyddiannus <addaswch y testun fel y bo'n briodol>

Llofnod _____ Dyddiad _____

Llofnod _____ Dyddiad _____

Llofnod _____ Dyddiad _____

Mae angen 2 o lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer awdurdod dros £500 - £25k (a21 Polisiâu Ariannol)
 3 o lofnodwyr awdurdodedig ar gyfer penderfyniadau ffurfiol ar dendrau dros £25k
 <Ychwanegwch / Dilëwch / Addaswch y categorïau fel y bo angen ar gyfer tendro perthnasol>

Dogfennau tendro a ffurflenni sgorio penderfyniadau enghreifftiol

Ffurflen sgorio penderfyniadau enghreifftiol

Tender decision scoring form
 Tender exercise name: *Example*
 Company Name: *A.C.M.E.*

Category	Weight x	Rating					Total
		1	2	3	4	5	
Financial Stability	<i>5</i>	1	2	3	<i>4</i>	5	<i>20</i>
Equalities policies	<i>5</i>	1	2	3	<i>4</i>	5	<i>20</i>
Company standing / Image	<i>5</i>	1	2	<i>3</i>	4	5	<i>15</i>
Customer Base / references	<i>10</i>	1	2	<i>3</i>	4	5	<i>30</i>
Expertise	<i>10</i>	1	2	3	<i>4</i>	5	<i>40</i>
Resource	<i>5</i>	1	2	3	<i>4</i>	5	<i>20</i>
Customer Contact	<i>10</i>	1	2	<i>3</i>	4	5	<i>30</i>
Process	<i>5</i>	1	2	<i>3</i>	4	5	<i>15</i>
Innovation	<i>5</i>	1	2	<i>3</i>	4	5	<i>15</i>
Cost AND Value	<i>10</i>	1	2	<i>3</i>	4	5	<i>30</i>
							<i>235</i>

Signature *[Signature]* Date *1/4/15*
 Signature *[Signature]* Date *1.4.15*
 Signature *[Signature]* Date *01/04/15.*

2 authorised signatories required for authority over £500 - £25k (s21 of PSOW financial policies)
 3 authorised signatories for formal tender decisions in excess of £25k

Dogfen Dendro Tabl Cynnwys

RHAN 1 – Gweithdrefnau Tendro

Adran I

Cyflwyniad i PSOW

Mae gan yr Ombwdsmon dair rôl benodol. Y cyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad; y trydydd yw mynd ati'n rhagweithiol i wella gwasanaethau cyhoeddus yn systematig. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol o'r holl gyrf y llywodraeth ac mae'r gwasanaeth a ddarperir yn rhad ac am ddim.

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion am gyrf sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned);
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion);
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai) a
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrf nodedig.

Mae'r Ombwdsmon yn swyddog cyhoeddus annibynnol a benodwyd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines yn dilyn ei enwebu gan Senedd Cymru. Mae oddeutu 75 o staff yn gweithio gyda'r Ombwdsmon ac maent wedi'u lleoli ar y mwyaf mewn swyddfeydd ym Mhencoed, ger Pen-y-Bont ar Ogwr.

Mae'r Ombwdsmon yn paratoi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol a gyflwynir i Senedd Cymru. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan PSOW.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, rhaid i PSOW ar bob cam o'r broses gaffael rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt.

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae PSOW yn rhwym wrth Safonau'r Gymraeg. Yn unol â'r Safonau, mae PSOW yn croesawi tendro yn y Gymraeg a bydd yn hwyluso defnydd y Gymraeg gan ymgeiswyr tendro a chyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith. Ni fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Rhaid i holl ddarparwyr fod yn ymwybodol o ddyletswyddau ac ymrwymïadau PSOW mewn perthynas â'r cydraddoldeb a'r Gymraeg, a chefnogi PSOW i'w cyflawni.

Os oes unrhyw ffyrdd y gallwn wneud y wybodaeth hon yn fwy hygyrch i chi, rhowch wybod i ni a gwnawn ein gorau i ddarparu ar gyfer eich anghenion.

Adran II

Golwg gyffredinol ar y gwasanaeth angenrheidiol a phrif delerau'r contract

Mae'r Ombwdsmon yn gwahodd tendrau ar gyfer darparu

Hyd y contract

Bydd y contract am gyfnod o <ddwy?> flynedd, gan gychwyn ar xx/xx/xxxx gyda'r opsiwn i ymestyn i gyfanswm o <dair?> blynedd drwy gytundeb ar y cyd.

Lleoliad

Disgwylir i'r gwaith yn gyffredinol yn cael ei wneud <o bell >/ <Ar safle ein swyddfydd ym Mhencoed > gan ddefnyddio <cofnodion electronig a chyfweliadau dros y ffôn / fideo> / <cyfarfodydd wyneb yn wyneb>. Darperir copiâu electronig i gofnodion, recordiadau perthnasol ayb i'r <darparwr gwasanaeth>. <Fodd bynnag, gellir darparu gofod swyddfa yn swyddfa'r Ombwdsmon ym Mhencoed os a phan fydd yn ofynnol ar gyfer y>.

Cyfrinachedd

Bydd yr holl gofnodion, papurau gwaith, adroddiadau a gwybodaeth arall a ddelir gan y <darparwr gwasanaeth> wrth gyflawni'r contract hwn yn parhau'n eiddo i'r PSOW. Ar derfyn y contract rhaid i bob gwaith papur perthnasol gael ei ddychwelyd i'r PSOW neu ei waredu mewn modd a gytunir gan y PSOW.

Rhaid i unrhyw gofnodion (papur neu electronig) gael eu storio'n ddiogel gyda mesurau diogelwch priodol yn eu lle. Rhaid cael gwared ag unrhyw gopiâu caled o ddogfennau mewn modd a gytunir gan y PSOW. Mae'r <darparwr gwasanaeth> yn gyfrifol am sicrhau y tynnir unrhyw gofnodion yn llwyr o unrhyw gyfrifiaduron, gweinyddion, disgiau caled cyn y ceir gwared ag unrhyw rai o'r rhain.

Bydd yn ofynnol i'r <darparwr gwasanaeth> gydymffurfio â Pholisi Diogelwch Gwybodaeth yr Ombwdsmon, a darperir copi.

Rhaid i'r <Darparwr Gwasanaeth> addo peidio â chyhoeddi na chyfathrebu canlyniadau na chynnwys unrhyw ran o'u gwaith i unrhyw un ac eithrio'r PSOW a'r achwynydd. Mae'r addewid hwn yn parhau y tu hwnt i gyfnod y contract.

Bydd unrhyw dorri ar reolau cyfrinachedd y contract neu wybodaeth gyfyngedig yn golygu tor-contract sylweddol ac yn galluogi'r Ombwdsmon i derfynu'r Contract.

Prisio

Dylid cyflwyno pob pris mewn GBP. Rhaid dyfynnu cyfraddau TAW os yn berthnasol gan nad yw PSOW wedi'i gofrestru ar gyfer TAW ac felly ni all adennill TAW os caiff ei godi.

<dylid cynnwys gofynion prisio penodol e.e. cyfraddau fesul awr / diwrnod, neu swm newidiol yn seiliedig ar wasanaeth ayb>

<dylid cynnwys unrhyw allu i adennill treuliau / costau teithio ayb>

Adran III

Cyfarwyddiadau i'r Rhai sy'n Tendre

Rhaid cyflwyno Ffurflenni Cais Tendir wedi'u cwblhau trwy borth blwch post GwerthwchiGymru cyn <amser> ar XX/XX/XXXX.

Adran IV

Y broses dendro

Mae amserlen ddangosol i'w gweld isod. Ceidw'r PSOW yr hawl i ddiwygio'r dyddiadau os bydd angen:

Cyhoeddi Tendir	
Dyddiad Cau i Dendrwyr	
Rhestr Fer	
Cyflwyniadau i Banel	
Dewis darparwr a ffefrir	
Cychwyn y ddarpariaeth	

Telerau ac amodau ceisio am dendr Cyfrinachedd

Ni fydd y <darparwr gwasanaeth> yn cyhoeddi unrhyw ddatganiadau cyhoeddus nac yn datgelu unrhyw wybodaeth fel arall ynghylch y ddogfen dendro hon, y broses na'r ffaith ei fod yn cymryd rhan yn y broses heb gymeradwyaeth ysgrifenedig y PSOW ymlaen llaw.

Ymwadiad Cyfreithiol

Gwahoddiad i gynnig yw'r ddogfen dendro hon ac nid yw mewn unrhyw fodd yn creu cynnig nac unrhyw rwymedigaeth arall ar ran y PSOW i ymuno mewn unrhyw gontract.

Bydd yr holl dreuliau a chostau a delir gan yr ymgeisydd wrth lenwi, cyflwyno a danfon y ceisiadau, ynghyd ag unrhyw gostau yn ystod y cyfnod ar ôl tendro, yn cael eu talu gan yr ymgeisydd eu hun. Nid oes rhaid i'r PSOW dderbyn y cais isaf, nac unrhyw gais.

Defnyddio Gwybodaeth

Mae'r ddogfen dendro ac unrhyw wybodaeth arall a ddarperir yma i'w defnyddio i ddibenion ymateb i'r gwahoddiad hwn yn unig. Dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i baratoi eich ymateb yr awdurdodir atgynhyrchu unrhyw ran o'r ddogfen hon. Bydd yr ymgeisydd yn sicrhau bod pob copi o'r fath yn cael eu dinistrio pan nad oes eu hangen mwyach yng nghyswllt y cais hwn. Bydd yr uchod yn disodli unrhyw gytundebau cyfrinachedd rhwng y PSOW a'r ymgeisydd.

Adran V

Gwerthuso a Meini Prawf Cymhwyso

Wedi derbyn y cynnig bydd y PSOW yn ei adolygu a'i werthuso. Gall y PSOW wneud cais am eglurhad os oes unrhyw gwestiynau ynghylch y cynnig.

Caiff cynigion eu gwerthuso ar sail y canlynol:

- Sefydlogrwydd Ariannol
- Polisiâu cydraddoldeb
- Gofynion cydraddoldeb a'r Gymraeg ychwanegol (os yn perthnasol)
- Enw da / delwedd y cwmni / sail cwsmeriaid / Geirdaon
- Arbenigedd
- Adnoddau
- Gwasanaethau i gwsmeriaid
- Dealltwriaeth o broses ac arloesedd
- Gwerth am arian

RHAN 2 – Gofyniad Penodol

Adran VI

Manyleb

<Rhowch fanylion penodol gofynion y contract>

Adran VII

Ystyriaethau cyllidebol

<Os yn berthnasol, gellir penderfynu cyn yr ymarfer tendro i gynnwys uchafswm cyllideb yn y dogfennau tendro os yw'r broses dendro'n cynnwys gofyniad i'r darpar ddarparwr gwasanaeth ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o bosibl o ddarparu'r gwasanaeth gofynnol>

Rhan 3 – Ffurflen ceisio am dendr

ADRAN 1: Prif fanylion

Enw'r Cwmni	
Cyfeiriad y Brif Swyddfa	
Cyfeiriad y Swyddfa Leol	

Llenwch y manylion canlynol am y person yn eich sefydliad a fydd yn brif berson cyswllt ar gyfer eich cais.

Person Cyswllt (Teitl/enw llawn)	
Rôl / Teitl Swydd	
Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth gan gynnwys y cod post	
Cyfeiriad e-bost	
Rhif ffôn cysylltu	

Adran 2: Hanes a sefydlogrwydd ariannol

Nifer o flynyddoedd yn masnachu	
Cyfrifon ariannol am y 2 flynedd diwethaf wedi'u cynnwys?	
Rhagor o fanylion	

Adran 3a: Polisiâu cydraddoldeb

<p>Darparwch fanylion eich ymrwymiad i gydraddoldeb gwasanaeth (gan gyfeirio at unrhyw bolisi cydraddoldeb neu broses fewnol)</p>	
--	--

Adran 3b: Gofynion cydraddoldeb a'r Gymraeg ychwanegol

<p>Darparwch fanylion am sut ydych yn bwriadu bodloni'r gofynion ychwanegol a osodwyd</p>	
--	--

Adran 4: Delwedd gorfforaethol a chyhoeddus

<p>Darparwch fanylion eich delwedd Gorfforaethol a'ch dealltwriaeth o ewyllys da a chanfyddiad y cyhoedd o hynny.</p>	
--	--

Adran 5: Sail cwsmeriaid a geirdaon gan gwsmeriaid

<p>Darparwch fanylion am eich sail cwsmeriaid a nodwch enghreifftiau o gwsmeriaid yr ydych yn darparu gwasanaeth tebyg ar eu cyfer. A wnewch chi hefyd roi ynghlwm unrhyw eirdaon gan gwsmeriaid a fyddai'n berthnasol i'r gwasanaethau yr ymgeisir amdanynt.</p>	
--	--

Adran 6: Arbenigedd

<p>Darparwch fanylion y sgiliau a'r arbenigedd sydd ar gael i chi yng nghyswilt y gwasanaethau gofynnol.</p>	
---	--

Adran 7: Adnoddau

<p>Darparwch fanylion am faint eich sefydliad a hefyd yr adnoddau sydd ar gael i chi o ran cyflawni'r contract hwn.</p>	
--	--

Adran 8: Gwasanaethau i gwsmeriaid

<p>Darparwch fanylion sut y mae eich cwmni'n rheoli pob contract a ddyfernir i chi yn enwedig o ran parhad cyswllt y contract.</p>	
---	--

Adran 9: Dealltwriaeth o'r broses / gwasanaethau a geisir

<p>Darparwch fanylion sut y byddai eich cwmni yn darparu'r gwasanaethau angenrheidiol gofynnol.</p>	
--	--

Adrannau 11: Cost

<p>Darparwch fanylion y taliadau a fyddai'n berthnasol ar gyfer cwblhau'r contract hwn yn llwyddiannus. (h.y. cyfraddau fesul awr / diwrnod/ ad hoc) a manylion unrhyw daliadau ychwanegol a fyddai'n berthnasol.</p>	
--	--

Adran 12: Contract enghreifftiol

<p>Rhowch ynghlwm enghraifft o gontract gwasanaeth a gynigir gennych.</p>	
--	--

Mae croeso i chi atodi unrhyw ddeunydd hyrwyddo / cyflwyniadau pellach, ond nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr asesiad cychwynnol yn seiliedig ar gwblhau'r ffurflen uchod.

Ynghlwm: <rhowch fanylion unrhyw atodiadau / dogfennau sydd ynghlwm>

Llofnodwyd..... Enw.....

Teitl Swydd..... Dyddiad.....

Teclyn asesu perthnasedd caffael i gydraddoldeb a'r Gymraeg

Ydy'r broses gaffael hon yn berthnasol i gydraddoldeb neu'r Gymraeg?	
A fydd yn effeithio ar bobl gyda nodweddion gwarchoddedig / siaradwyr y Gymraeg?	A allai helpu PSOW i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol / Safonau'r Gymraeg?
<p>Nodweddion gwarchoddedig</p> <ul style="list-style-type: none"> • oedran • anabledd • rhywedd • cyfeiriadedd rhywiol • ailbennu rhywedd • hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd • crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred • beichiogrwydd a mamolaeth • priodas a phartneriaeth sifil <p>Y Gymraeg</p>	<p>A allai</p> <ul style="list-style-type: none"> • dileu neu leihau anfantais • helpu bodloni anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig • annog cyfranogiad pobl â nodweddion gwarchoddedig • helpu taclo rhagfarnau; • helpu hyrwyddo dealltwriaeth rhwng grwpiau â nodweddion gwarchoddedig gwahanol • dylanwadu ar gyfleodd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg • dylanwadu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
Os mae'r broses gaffael yn berthnasol i gydraddoldeb neu'r Gymraeg, ystyriwch osod gofynion arbennig i gyflenwyr	
<p>E.e. gofynnwch am dystiolaeth o:</p> <ul style="list-style-type: none"> • allu i ddarparu gwasanaethau neu allbynnau yn y Gymraeg • allu i arlwyyo yn unol â gofynion dietegol grwpiau ethnig neu grefyddol • allu i ddiwallu anghenion hygyrchedd pobl ag anabledd • hanes o ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig penodol • trefniadau ar gyfer sicrhau hygyrchedd a thriniaeth deg wrth ddarparu gwasanaeth 	
O dan £25k	Dros £25k
Mae'r holl cyflenwyr posibl yn darparu tystiolaeth o'u gallu i ddiwallu'r gofynion ychwanegol	Mae'r holl cyflenwyr posibl yn cwblhau cwestiynau penodol yn y dogfennau tendro